CYPE(6)-16-22 – Papur i'w nodi 6

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

—

Children, Young People and Education Committee

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

6 Gorffennaf 2022

Absenoldeb disgyblion

Annwyl Jeremy

Diolch am ddod i'n cyfarfod Pwyllgor ar 29 Mehefin 2022 ar gyfer ein hymchwiliad i absenoldeb disgyblion. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- A yw data absenoldeb o'r ysgol yn cael eu defnyddio i helpu i nodi cymorth iechyd meddwl yn gynnar, a sut y caiff ei ddefnyddio?
- Pryd y bydd y data ar addysg ddewisol yn y cartref ar gael.
- Gwerthusiad, pan fydd ar gael, o'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth emosiynol, iechyd meddwl a llesiant ychwanegol i bobl ifanc.

Wrth drafod y dystiolaeth, cytunwyd hefyd i fynd ar drywydd rhai materion ychwanegol:

- A yw'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt Teulu wedi'i neilltuo ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ysgol? Os nad yw, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Swyddogion Cyswllt Teulu, ac nad yw'n cael ei gynnwys mewn gwariant mwy cyffredinol ar ysgolion?
- A yw'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela, a drafodwyd yn ystod y Pwyllgor, yn mynd yn uniongyrchol i wasanaethau cwnsela?
- Rydym yn ymwybodol, yn anecdotaidd, o'r pwysau sy'n cael ei roi ar rai plant a phobl ifanc o ganlyniad i absenoldeb parhaus athrawon arbenigol mewn ysgolion uwchradd. Er enghraifft, pan mae arbenigwr pwnc wedi bod i ffwrdd am gyfnod hir, ac nad oes darpariaeth arbenigol ddigonol ar gael. Yn ystod y gwersi hyn, gofynnir i blant roi cymorth i'w cyfoedion, sy'n achosi straen a phryder. A ydych yn ymwybodol o'r mater hwn, a beth y gellir ei wneud, yn eich barn chi, i fynd i'r afael â'r mater?

Cytunwyd hefyd i rannu gyda chi yr adroddiad cryno ar ein canfyddiadau ymgysylltu â rhieni a phobl ifanc. Ynghyd â hyn, rydym hefyd yn rhannu gohebiaeth ddiweddar gan Gyngor Wrecsam at rieni a gofalwyr yn dilyn eich cyhoeddiad diweddar am hysbysiadau cosb benodedig. Nodwn nad oes cyfeiriad at faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddrafftio ein hadroddiad, byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Iau 8 Medi.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Absenoldeb disgyblion

Canfyddiadau gwaith ymgysylltu

Mehefin 2022

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i absenoldeb disgyblion, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau i gasglu barn rhieni a phobl ifanc am y rhesymau dros absenoldeb disgyblion a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

1. Ymgysylltu

1.Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion 5 grŵp ffocws a 7 cyfweliad rhwng 24 Mai a 9 Mehefin gydag amrywiaeth o rieni, pobl ifanc ac ychydig o staff mewn gwahanol rannau o Gymru. Darparodd un unigolyn ac un grŵp sylwadau ar e-bost hefyd.

2.O gofio y gall y pwnc fod yn sensitif i rai, cynigiwyd cyfweliadau i'r rhai yr oedd yn well ganddynt siarad am eu sefyllfa y tu allan i amgylchedd grŵp, neu i'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn rhan o grwpiau ffocws oherwydd yr amseru.

Cyfranogwyr

3.Daethpwyd i gysylltiad â chyfranogwyr drwy sefydliadau sy'n cefnogi teuluoedd mewn perthynas â phresenoldeb yn yr ysgol.

4.Cymerodd 34 o bobl ran. Roedd y mwyafrif yn rhieni, yn cwmpasu ystod o oedrannau o fabanod i uwchradd. Cymerodd grŵp o 7 o bobl ifanc ran hefyd, ynghyd â dau aelod o staff o ysgol.

5.Daeth y cyfranogwyr o 7 awdurdod lleol yng ngogledd a de Cymru.

6.Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

Methodoleg

7.Trafododd gwaith y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y cylch gorchwyl a ganlyn o ran yr ymchwiliad:

- Lefelau absenoldeb cyson a'r rhesymau dros hynny
- P'un a yw absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn uwch nag yr oeddent cyn pandemig COVID 19, ac os felly, pam
- Y risgiau a'r canlyniadau tymor byr a thymor hwy i ddysgwyr, er enghraifft o ran iechyd meddwl a llesiant
- Yr effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad disgyblion
- Lefel ac effeithiolrwydd gweithredu a chymorth gan ysgolion, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru
- Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys

Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i'r cyfranogwyr sy'n rhieni:

1. A yw presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol wedi newid ers cyn y pandemig ac os felly beth rydych chi'n meddwl yw'r rheswm am hynny?
2. A yw pryderon ynghylch gwaith ysgol neu ddal Covid yn cyfrannu at y newid mewn presenoldeb?
3. A oes gennych unrhyw ofidiau am yr effaith y mae absenoldeb yn ei chael ar eich plentyn, o ran iechyd meddwl a llesiant a chyrhaeddiad?
4. Sut rydych chi'n teimlo y mae'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi eich cefnogi neu eich cynorthwyo chi a beth arall y gallen nhw fod wedi'i wneud?
5. Beth yw eich barn am ailgyflwyno hysbysiad cosb benodedig pan fydd popeth arall wedi methu?

   I'r bobl ifanc a gymerodd ran, gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn:

6. Sut roeddech chi'n teimlo am fynd i'r ysgol/coleg cyn y pandemig a sut rydych chi'n teimlo am hynny nawr? Os ydych yn teimlo'n wahanol, pam?

7. Sut roeddech chi'n teimlo am fynd yn ôl i'r ysgol/coleg pan wnaethon nhw agor eto i bawb? Oeddech chi'n bryderus ac, os felly, beth oeddech chi'n bryderus amdano (am waith ysgol neu am ddal a throsglwyddo COVID)? Sut wnaeth yr ysgol/coleg helpu gydag unrhyw bryderon oedd gennych chi?

8. Beth rydych chi'n meddwl yw'r rhesymau posibl nad yw rhai plant a phobl ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd?

9. Ydych chi'n credu bod gan rai plant a phobl ifanc agwedd wahanol at fynd i'r ysgol ar ôl yr holl darfu?

10. Beth rydych chi'n meddwl yw'r effaith y mae peidio â mynychu'r ysgol/coleg yn rheolaidd ei chael ar ddysgu ac ar iechyd a llesiant?

11. A oes unrhyw beth y gallai'r ysgol/coleg ei wneud i'ch helpu chi i fynychu (y rhai nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd)?

12. Yn yr achosion mwyaf difrifol o ddiffyg presenoldeb rheolaidd, beth rydych chi'n ei feddwl am y syniad o ddirwyo rhieni?

8.Roedd y fformat ymgysylltu yn debyg i raddau helaeth ar draws y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws, ond yn amrywio ychydig er mwyn ymateb i'r safbwyntiau, y profiadau a'r syniadau oedd yn cael eu rhannu gan gyfranogwyr.

2. Canfyddiadau gwaith ymgysylltu: effaith pandemig Covid-19 ar absenoldeb

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd presenoldeb yn yr ysgol wedi newid ers cyn y pandemig a beth roedden nhw'n feddwl oedd y rheswm am hynny.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo y bu newid sylweddol a nodir y rhesymau a drafodwyd isod. Fodd bynnag, roedd nifer o gyfranogwyr yn esbonio bod presenoldeb eisoes wedi bod yn wael cyn y pandemig. Yn yr achosion hyn, nid oedd cau ysgolion wedi helpu'r sefyllfa, ac i'r mwyafrif, roedd wedi dwysáu pethau.

Tarfu

9.Soniodd nifer o'r cyfranogwyr am y tarfu a gafwyd wrth gau ysgolion fel un o'r rhesymau pam yr oedd presenoldeb wedi newid ers cyn y pandemig. Roedd llawer yn teimlo bod dysgwyr wedi ei chael yn anodd ailgynefino yn yr ysgol yn dilyn y cyfnodau clo, gan achosi lefelau uwch o absenoldeb.

10. Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am broblemau o ran dysgu ar-lein a methu â chadw i fyny fel sbardun a dechrau'r broses o ran eu plentyn yn ymddieithrio oddi wrth ddysgu, a oedd wedyn wedi parhau ar ôl i'r ysgolion agor eto.

11. Soniodd eraill am fethu'r cyfnod pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a'r anhawster yr oedd llawer o ddysgwyr wedi'i gael wrth addasu i amgylchedd newydd.

> *"Mae wedi bod yn yr ysgol efallai ddwywaith ers mis Medi, Mae wedi symud i ysgol uwchradd. Mae'n ysgol fawr iawn. Ac mae'n methu ymdopi. Ni all fynd ar gludiant yr ysgol hyd yn oed. Mae mor bryderus. Mae'n crio. Mae'n torri'i galon. Rhai dyddiau nid yw'n gallu gadael ei ystafell wely."*

12. Roedd newidiadau i grwpiau ffrindiau hefyd wedi achosi problemau i lawer o ddysgwyr, yn dilyn cyfnodau clo a phobl ifanc yn methu cymdeithasu. Roedd hyn wedi arwain at fwy o bryder wrth ddychwelyd i leoliadau cymdeithasol neu newid ymddygiad ymysg ffrindiau a chynnydd mewn bwlio.

> *"Roedd cyfnod Covid yn anodd. Doedd e wir ddim eisiau mynd yn ôl. Roedd yn teimlo nad oedd ei ffrindiau'n ffrindiau iddo."*

Bwlio

13. Bwlio oedd un o'r prif ffactorau a godwyd gan y grŵp o bobl ifanc a gymerodd ran. Dywedodd un cyfranogwr nad oedd ganddynt ffrindiau pan oeddent yn yr ysgol felly roeddent yn cael eu bwlio. Roedd un arall wedi cael eu bwlio ac yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi gan yr ysgol am fod yn ddioddefwr, a dywedodd un aelod o'r grŵp y byddai'n mynd i gyn lleied o ddosbarthiadau ag y gallai gan ei bod yn *casáu'r bobl, yr athrawon, popeth*.

> *"Cyn y cyfnod clo, roedd hi yn yr ysgol gynradd, ac wedyn roedd yn rhaid iddi fynd i'r uwchradd. Newidiodd ei ffrindiau ac mae wedi cael trafferth gyda bwlio. Dyw hi ddim eisiau mynd i'r ysgol nawr ac mae'n dioddef gyda gorbryder, pyliau o banig a theimladau nad yw'n ddigon da."*

Salwch

14. Soniodd nifer o rieni plant iau am gynnydd mewn salwch a'r angen i gadw eu plant gartref o ganlyniad i hynny. Roedd y mwyafrif yn teimlo mai'r rheswm oedd y cyfnodau estynedig pan nad oedd plant iau yn cymysgu a chael yr afiechydon arferol. Roedd rhieni'n teimlo'n rhwystredig oherwydd hyn ond roedd anawsterau wrth geisio cael apwyntiadau gyda meddyg teulu a pholisïau ysgol ynghylch salwch yn golygu nad oedd ganddynt ddewis ond cadw eu plant gartref yn ystod cyfnodau hyn o salwch.

Cyfrifoldebau Gofal

15. Siaradodd y bobl ifanc a gymerodd ran am nifer y dysgwyr yr oeddent yn eu hadnabod a oedd hefyd yn ofalwyr ifanc, ac roedd hyn yn cael effaith ar eu presenoldeb. Dywedasant eu bod yn rhy flinedig i fynychu'r ysgol y rhan fwyaf o'r amser.

16. Soniodd aelodau'r staff hefyd am gynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc yn dilyn y pandemig, o ganlyniad i gynnydd mewn gofidiau iechyd meddwl ymysg rhieni. Roeddent hefyd wedi canfod bod hyn yn cael effaith ar bresenoldeb mewn rhai achosion.

Casáu'r ysgol

17. Teimlai un grŵp na fu llawer o wahaniaeth ers cyn y pandemig. Roedden nhw'n teimlo nad oedd y rhai nad oeddent yn hoffi mynd i'r ysgol yn dal i fod yn hoffi mynd.

18. Dywedodd un rhiant, os nad yw'r plant yn hoffi un o'r athrawon yn benodol, mai dyna fyddai'r prif reswm nad oeddent am fynd i'r ysgol. Dywedodd o ran ei merch ei hun, pe bai'n

dechrau corddi am fynd, roedd yn haws ei chadw gartref a'i thawelu, nag ymdrin â'r straen o'i hanfon at athro nad yw'n ei hoffi.

"Os oes gan yr athro ychydig o agwedd gyda chi, mae'n haws gadael iddyn nhw gael diwrnod i ffwrdd, mae'n llai o straen."

"Mae llawer o rieni'n rhoi'r gorau iddi os yw'n frwydr i'w cael i mewn."

19. Soniodd grŵp arall hefyd am y plant hynny nad oeddent wedi hoffi'r ysgol beth bynnag a'u bod, ar ôl yr amser i ffwrdd, wedi ei chael yn anos dychwelyd.

"Dyw rhai plant ddim eisiau mynd i mewn nawr, maen nhw eisiau bod adref gyda'u rhieni."

Hunanfodlonrwydd

20. Teimlai un grŵp o gyfranogwyr fod tynnu plant allan o'r ysgol am wahanol resymau wedi cynyddu'n aruthrol ers y pandemig, a bod llawer yn pryderu llai ers Covid gan eu bod yn teimlo eu bod eisoes wedi cael cymaint o amser i ffwrdd beth bynnag.

21. Roeddent yn teimlo bod mwy o hunanfodlonrwydd ers y pandemig lle'r oedd rhieni'n hapusach i dynnu plant allan o'r ysgol ar gyfer tripiau dydd neu wyliau.

"Mae'n haws iddyn nhw beidio dod â nhw i mewn. Efallai eu bod wedi rhoi'r gorau i'w car, mae'n daith hir i gerdded mewn tywydd gwael ar ffordd brysur."

"Maen nhw'n ei wneud er mwyn gwneud bywyd yn hawdd mewn llawer o achosion."

22. Fodd bynnag, roedd rhieni eraill o'r farn bod yr amser i ffwrdd yn ystod Covid yn rheswm i sicrhau bod eu plant yn mynychu cymaint â phosibl nawr, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddal i fyny ar yr hyn yr oeddent wedi'i golli.

"Mae llawer o deuluoedd yn poeni bod angen iddynt ddal i fyny, ond mae eraill yn teimlo ei fod yn esgus y gallant ei ddefnyddio."

Anghenion dysgu ychwanegol

23. Roedd rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn teimlo'n gryf bod y pandemig wedi arwain at lai o bresenoldeb o ran eu plant. Er i rai ddweud bod problemau gyda chymorth cyn hynny, roedd y mwyafrif yn teimlo bod dysgu ar-lein, dychwelyd i leoliad ysgol ac amharu ar staff cymorth ac addysgu wedi cyfrannu ymhellach at lefelau presenoldeb eu plentyn.

24. Dywedodd un rhiant fod ei phlentyn wedi ymddieithrio o ddysgu ar-lein ac nad oedd wedi cael cynnig y cymorth roedd ei angen yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd fod problemau cyn y pandemig ond bod y rhain yn is na'r trothwy ar y pryd, felly gwrthodwyd asesiadau. Roedd y newidiadau yn ystod y pandemig yn golygu bod y problemau hyn wedi gwaethygu oherwydd y diffyg cefnogaeth.

Pryderon ac iechyd meddwl

25. Un o'r prif bwyntiau a godwyd gan gyfranogwyr oedd pryder ynghylch dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnodau clo. Er bod rhai'n sôn am broblemau cyn y pandemig, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y cyfnod estynedig o fod i ffwrdd o'r ysgol wedi cael effaith negyddol ar eu plant, a phan roedd disgwyl iddynt ddychwelyd, roeddent wedi cael trafferth gyda phryder.

26. Soniodd nifer o rieni plant iau am bryder gwahanu a bod hyn yn effeithio ar y plentyn a'r rhiant mewn rhai achosion yn dilyn cyfnod mor hir o fod gartref gyda'i gilydd.

27. Roedd pryder cymdeithasol hefyd yn effeithio ar lawer o'r dysgwyr hŷn, gyda nifer o rieni'n dweud nad oedd eu plentyn eisiau gadael eu hystafell, heb sôn am y tŷ, a bod y syniad o fynd i'r ysgol yn '*arswydus*' a '*thrawmatig*' i rai.

> *"Collodd ei sgiliau cymdeithasol pan nad oedd hi yn yr ysgol a nawr dydy hi ddim yn hoffi treulio amser gyda'i ffrindiau."*
>
> *"Mae'n teimlo ei bod wedi colli allan ar ddarnau mawr o waith tra mae ei ffrindiau i gyd yn iawn felly mae hi bellach yn teimlo'n ynysig. Bydd yn cael pyliau o banig yn y car y tu allan i'r ysgol ac yn dweud bod y disgyblion hŷn yn codi ofn arni."*

28. I nifer o gyfranogwyr, roedd y pryder hwn wedi dwysáu'n broblemau mwy difrifol o ran eu hiechyd meddwl ac roedd rhieni wedi ceisio cymorth i gael asesiadau, diagnosis a threfniadau dros dro ar gyfer dysgu.

29. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

3. Canfyddiadau gwaith ymgysylltu: effaith absenoldeb ar iechyd meddwl, llesiant a chyrhaeddiad

Iechyd meddwl a llesiant

30. I nifer o gyfranogwyr, iechyd meddwl oedd y prif reswm dros yr absenoldeb, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y diffyg cefnogaeth a oedd ar gael a'r amseroedd aros ers y pandemig yn golygu bod hyn yn dwysáu'r sefyllfa.

> *"Daeth y dysgwyr canol coll a fyddai fel arfer wedi bod yn yr ysgol yn fwy amlwg yn ystod y cyfnod clo a gwaethygodd eu problemau oherwydd unigedd, dim cymorth yn yr ysgol, dim rhyngweithio cadarnhaol â phobl allweddol mewn addysg a symptomau iechyd meddwl yw brig y mynydd iâ."*

31. I'r rhai a siaradodd am iechyd meddwl gwael, nid oedd yn rhwydd cael cymorth drwy CAMHS neu'r meddyg teulu ac roedd rhestrau aros yn awgrymu na fyddai unrhyw gymorth yn cael ei gynnig tan y flwyddyn nesaf i lawer. Roedd hyn yn golygu bod llawer o rieni'n teimlo'n anobeithiol a bod eu plant yn debygol o golli llawer mwy o ysgol cyn i unrhyw beth gael ei ddatrys neu ei wella ar eu cyfer.

> *"Dydw i erioed wedi teimlo mor enbyd ag yr ydw i nawr, dwi'n teimlo'n anobeithiol."*

32. O ran y rhai nad gofid iechyd meddwl oedd prif achos yr absenoldeb, roedd gofid o hyd ynghylch y loes emosiynol yr oedd eu plant yn ei deimlo o ganlyniad i absenoldebau a'r ymdrechion i ddychwelyd i'r ysgol.

> *"Mae'r pwysau cyson a deimlir gan rieni plant â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o ran mynychu yn ei gwneud yn waeth/dwysáu popeth ac yn ychwanegu at y pryder a'r straen rhwng y rhiant a'r plentyn. Yna, rydych chi'n ychwanegu at eu pryder a'u loes emosiynol."*

Cyrhaeddiad

33. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n pryderu am gyrhaeddiad eu plentyn o ganlyniad i absenoldeb. Roedd rhai yn hapus gyda'r cymorth a gynigiwyd i gynnal lefel o ddysgu er gwaethaf absenoldeb, ond roedd eraill yn rhwystredig nad oedd eu hysgolion yn ymgysylltu.

34. Fel y nodir uchod, roedd llawer wedi cael trafferth gyda dysgu ar-lein, gan ganfod eu bod wedi methu â chadw i fyny o ran gwaith ysgol yn ystod y pandemig. Roedd hyn wedi cyfrannu at bryderon ynghylch dychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

"Rwy'n teimlo bod ei dyfodol yn cael ei gymryd oddi arni."

"Rwy'n poeni am ei ddyfodol. Sut mae'n mynd i wneud yn yr ysgol? Mae'n mynd i fod yn gymaint o drueni os na all bachgen fel ef gael addysg. Mae'n anodd iawn ei wylio'n cael trafferth a pheidio â chael yr hyn y mae ganddo'r hawl iddo."

"Os nad ydych chi'n cael unrhyw gefnogaeth gan yr ysgol, sut rydych chi'n mynd i'w cefnogi i barhau i ddysgu a gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cyrraedd pwynt penodol lle rydych chi'n meddwl... maen nhw mor bell ar ei hôl hi nawr, sut ar y ddaear y gallan nhw ddisgwyl dal i fyny?"

Addysgu yn y cartref

35. Roedd dau o'r cyfranogwyr bellach yn addysgu eu plant yn y cartref. Roedd un rhiant wedi gwneud y penderfyniad hwn yn y pen draw ar sail cyflyrau meddygol ei phlant a gofid am ledaeniad Covid. Fodd bynnag, eglurodd fod hyn wedi bod yn ystyriaeth eisoes cyn y pandemig gan ei bod yn canfod nad oedd yr ysgol yn diwallu anghenion ei mab.

36. Er nad oedd unrhyw gyfranogwyr eraill yn addysgu yn y cartref ar hyn o bryd, roedd hyn yn opsiwn a gafodd ei godi gan nifer o gyfranogwyr a oedd yn cael trafferth gydag absenoldebau ac yn teimlo nad oedd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn eu cefnogi. Mwy o bryderon neu ddirywiad mewn iechyd meddwl oedd y prif resymau dros ystyried hyn, a theimlad nad oedd dim yn newid i'w plentyn. Roedd y cyfranogwyr hyn felly'n teimlo bod angen iddynt gymryd rheolaeth dros ddysgu eu plentyn, cyn colli mwy o addysg.

"Nid yw fy merch yn gwneud unrhyw ddysgu ffurfiol ar hyn o bryd ac os nad yw'n gallu mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi, rwy'n teimlo y bydd yn rhaid i mi wneud rhywbeth gartref gyda hi."

37. Soniodd y grŵp o gyfranogwyr ifanc hefyd am gynnydd mewn addysgu yn y cartref ymhlith eu cyfoedion, gan awgrymu bod yn well gan ddysgwyr fod gartref. Roeddent o'r farn bod yn well gan y myfyrwyr hyn beidio â gorfod gwisgo gwisg ysgol, efallai bod ganddynt well cysylltiad â'u rhieni a'u bod yn fwy cyfforddus gartref yn hytrach nag yn yr ysgol.

4. Canfyddiadau gwaith ymgysylltu: cymorth ysgolion ac awdurdodau lleol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am y cymorth a gawsant gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, ac a oedd mwy y gellid ei wneud.

Profiadau cymysg

38. Disgrifiodd y cyfranogwyr brofiadau cymysg iawn o ran y gefnogaeth a gafwyd gan eu hysgolion a'u hawdurdodau lleol.

39. Roedd rhai yn hapus iawn â'r cyfranogiad a'r cyfathrebu yr oeddent wedi'u cael o'u hysgol. Er enghraifft, soniodd un cyfranogwr am ysgol ei merch yn rhoi amserlen lai ar waith, atgyfeiriadau i wahanol raglenni llesiant ac awgrymiadau ychwanegol megis gweithio gydag ysgol gynradd ei merch os byddai'n teimlo'n fwy cyfforddus yn mynychu lleoliad llai, mwy cyfarwydd.

40. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr eraill yn rhwystredig gyda'r diffyg cefnogaeth a roddwyd ar waith i'w plant, er gwaethaf nifer o geisiadau ganddynt. Siaradodd un rhiant â'r ysgol am gael rhywfaint o adnoddau i helpu ei merch i barhau i ddysgu gartref yn ystod cyfnod o bryder, ond ni chafodd ddim. Teimlai nad oeddent am gefnogi hyn.

> *"Pan mae'n rhaid i rieni reoli iechyd meddwl eu plentyn a'u cadw gartref mae'n adlewyrchiad o'r diffyg cefnogaeth a gwybodaeth mewn addysg."*

41. Disgrifiodd y cyfranogwyr hefyd safbwyntiau cymysg o ran eu profiad gyda'r awdurdod lleol. Roedd rhai yn falch o'r gefnogaeth a gafwyd gan eu Swyddog Cynhwysiant er enghraifft, gan deimlo bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud i feithrin perthynas gadarnhaol â'u plentyn. Soniodd rhiant arall am opsiynau eraill a awgrymwyd megis swyddog llesiant ieuenctid

/ mentor a fyddai'n mynd â'i merch allan i feithrin ei sgiliau cymdeithasol. Teimlai'r cyfranogwr hwn y byddai hyn o fudd gwirioneddol i'w merch ond gyda rhestr aros o 4 mis roedd yn teimlo'i bod yn amlwg bod angen mwy o adnoddau ar gyfer hyn ac mae angen cael gafael arno yn llawer mwy amserol.

42. Fodd bynnag, teimlai eraill nad oeddent yn gwybod sut i gysylltu â'r awdurdod lleol, neu nad oeddent wedi cael unrhyw ymateb pan oeddent wedi ceisio uwchgyfeirio unrhyw drafferthion.

43. Dywedodd un cyfranogwr fod ei phrofiad gyda'r awdurdod lleol wedi bod yn d*rychinebus*. Dywedodd ei bod yn teimlo nad oedd y bobl yr oedd hi'n siarad â nhw mor wybodus â hi am niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl ond yn diystyru popeth a ddywedai. Dywedodd eu bod yn '*siarad drosof a'm trin fel fy mod i'n idiot llwyr…. doedden nhw ddim yn clywed unrhyw beth roeddwn i'n ei ddweud am y plant.*"

> *"Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw (yr AALl) yn bodoli. Dwi'n meddwl n eu bod yn ddim ond y bobl 'ma i fyny yn y cymylau. Doedden nhw ddim hyd yn oed yn fy ateb i. Y cyfan wnaethon nhw oedd ei roi yn ôl i'r ysgol.*"

Atgyfeiriadau

44. Yn dibynnu ar y rheswm dros absenoldeb, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig gyda'r broses atgyfeirio ar gyfer asesiadau. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo bod absenoldebau'n gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol neu ofid am iechyd meddwl, fodd bynnag, nid oeddent yn gallu cael atgyfeiriadau amserol i wasanaethau a arweiniodd at gyfnodau hir o absenoldebau waeth beth fo'r cymorth ar gael gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

45. Roedd diffyg diagnosis hefyd yn golygu eu bod yn dibynnu ar ddealltwriaeth ac amynedd yr ysgol gan na allent ddarparu unrhyw dystiolaeth feddygol ar gyfer yr absenoldebau.

> *"Mae bwlch clir unwaith rydych chi y tu allan i'r ysgol ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch, o ran cymorth meddygol ac addysgol. Roedd yr ymyriadau lefel isel yn dda iawn ond pan nad oedd fy merch yn gallu mynd i'r ysgol o gwbl, nid oes dim yn digwydd nes y gall y gwasanaethau eraill ei gweld. Mae'r rhestrau aros am bopeth yn enfawr ac yn y cyfamser mae hi'n gwaethygu.*"

"Mae popeth yn ymddangos yn dameidiog iawn ar hyn o bryd. Rydw i wedi cael fy ngadael yn teimlo bod yn rhaid i mi geisio datrys beth yw'r broblem, gofyn am asesiad ond yna rwy'n cael fy ngwrthod. Cefais fy ngwrthod 3 gwaith mewn un diwrnod gan CAMHS, seicoleg addysg a'r pediatregydd. Roeddwn wedi codi fy ngobeithion i gael atebion ond yna cefais fy gwrthod."

"Mae'n teimlo fel brwydr gyson."

46. Roedd rhwystredigaethau arbennig ymhlith rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a llawer yn teimlo nad oedd eu hysgol wedi gwrando ar eu pryderon am niwroamrywiaeth ac nad oeddent wedi cefnogi asesiadau nac atgyfeiriadau. Fel y rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, teimlai rhieni fod hyn yn achosi cyfnodau diangen, estynedig o absenoldeb gan nad oedd y problemau'n cael sylw.

"Ysgolion yw'r porthorion o ran cyfeirio at wasanaethau niwroamrywiol, gwasanaethau niwroddatblygiadol, ond sut y gall rhywun chwilio am rywbeth pan nad ydynt yn gwybod am beth maen nhw'n chwilio?"

"Rydych chi'n teimlo'n ddi-rym iawn yn mynd i lawer o bethau gyda'r ysgolion."

Cyfathrebu

47. Soniodd nifer o'r grwpiau am y ffaith fod eisiau gwell cyfathrebu naill ai rhwng yr ysgol a'r rhieni neu'r awdurdod lleol a'r rhieni. Roedd rhai o'r farn bod llai o ddealltwriaeth ynghylch absenoldebau ers y pandemig gan ysgolion yn arbennig ac nad oedd y broses arferol o gysylltu â pheiriant ateb i roi gwybod am absenoldebau yn annog deialog rhwng y rhiant a'r ysgol pan oedd pryderon.

"Maen nhw'n fy ffonio'n gyson i weld lle mae fy merch, ond pan fydda i'n galw'n ôl, mae'n rhaid i mi siarad â pheiriant ateb. Rwy'n dal i aros am ymateb ar fater gododd y llynedd."

Disgwyliadau ychwanegol

48. Dywedodd yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y teuluoedd sydd angen cymorth ers y pandemig, a'r math o gymorth yr oedd ei angen arnynt.

49. Rôl y Swyddog Cyswllt â Theuluoedd oedd cefnogi dau deulu pan ddechreuodd y swydd cyn y pandemig. Roedd bellach yn cefnogi 49 o deuluoedd.

50. Roedd y cymorth a gynigir yn amrywio o atgyfeiriadau i ganolfan deuluol gyfagos a all roi arweiniad ar unrhyw beth o gyllid i gam-drin domestig, i raglenni yn yr ysgol megis clybiau brecwast, grwpiau plant agored i niwed a grŵp sydd newydd ei sefydlu ar gyfer tadau. Roedd y rhain i gyd yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi teuluoedd i gael y plant i'r ysgol.

51. Fodd bynnag, er bod yr ysgol yn gallu atgyfeirio teuluoedd am gymorth, roeddent yn canfod bod gormod o alw ar bob asiantaeth. Canfuwyd hefyd eu bod yn dibynnu'n drwm ar y rhieni'n ymgysylltu â'r hyn oedd ar gael.

"Mae'r cynnig addysg wedi ehangu i gefnogaeth i deuluoedd. Nid i'r plant yn unig, i'r rhieni hefyd."

5. Canfyddiadau gwaith ymgysylltu: barn ar ddefnyddio cosbau penodedig

Annheg

52. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y defnydd o ddirwyon i rieni yn annheg. Teimlai llawer eu bod yn ceisio gweithio gyda'r ysgol a'r plentyn i wella presenoldeb, ac na fyddai dirwy o unrhyw gymorth.

53. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr wedi cael dirwy, ac mewn llawer o achosion, nid oedd y bygythiad o ddirwy wedi'i drafod ychwaith. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod hyn o ganlyniad i gydnabyddiaeth bod eu plentyn yn absennol am resymau oedd yn ymwneud â'r ffaith bod angen cymorth pellach arnynt, yn hytrach na diffyg ymgysylltu.

54. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd wedi cael eu bygwth â dirwyon yn teimlo bod hyn yn ddiangen o ystyried bod eu plant o dan wasanaethau ADY neu CAMHS ar y pryd, neu fod rhieni'n gofyn am asesiadau i roi cymorth ar waith. Roedd y profiad wedi bod yn straen mawr meddent, ac roedd teimlad ei fod yn anghyfiawn o ystyried yr ymdrechion a wnaed, naill ai i gael eu plant i'r ysgol, neu ganfod atebion eu hunain i'r cymorth sydd ei angen.

"Felly roedd yn straen meddwl 'dwi'n mynd i gael dirwy. Ydw i'n mynd i'r carchar? Pwy sy'n mynd i gael fy mhlant pan fyddaf yn mynd i'r carchar?'"

"Rydyn ni eisoes o dan gymaint o bwysau yn ceisio cael ein plant i'r ysgol. Nid yw'n golygu nad ydym am eu cael yn yr ysgol, rydyn ni. Ac maen nhw eisiau bod yno."

"Rwy'n rhiant sengl ac eisoes wedi gorfod torri fy oriau gwaith i gefnogi fy merch. Byddai cael dirwy yn ddiwedd arnaf ac yn gwneud i mi deimlo mod i'n cael fy nghosbi, fel pe bawn i wedi gwneud rhywbeth o'i le."

"Yn sicr, nid yw'n wir na allaf i na rhieni eraill plant ASC fynd i'r drafferth o anfon ein plant i'r ysgol ond pan mae nhw'n teimlo cymaint o loes emosiynol bob bore, anobaith a phryder drwy'r to oherwydd bod amgylchedd ysgol yn drawmatig iddyn nhw, beth allwn ni ei wneud...!? Allwn ni ddim eu llusgo yno'n llythrennol wrth eu gwallt... byddai hynny wedyn yn gam-driniaeth... Allaf fi ddim pwysleisio digon bod wir ots gennym ni, rieni plant ASC a'n bod ni'n gwbl ymwybodol o faint o ysgol y maent yn ei golli ac yn poeni'n henaid am eu dyfodol."

Mewn rhai achosion

55. Mewn rhai achosion, teimlai'r cyfranogwyr y gallai dirwy fod yn effeithiol. Er enghraifft, i'r teuluoedd hynny oedd yn tynnu eu plant allan o'r ysgol yn barhaus i fynd ar wyliau. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod bod y ddirwy yn debygol o fod yn bryder i'r bobl anghywir, yn enwedig gan fod y ddirwy yn aml yn llai na chost uwch gwyliau y tu allan i'r tymor.

Costau byw

56. Roedd costau byw yn drafodaeth ymysg nifer o'r grwpiau a chostau ysgol i'r rhan fwyaf o rieni eisoes, yn rheswm dros beidio â defnyddio cosbau penodedig.

"Mae dirwyon yn tueddu i effeithio'n fwy ar deuluoedd tlotach ac maen nhw'n arf di-fin."

"Mae'r ysgol eisoes yn ddrud i deuluoedd gyda gwisgoedd ysgol a thripiau ysgol. Ac mae rhieni eisoes yn cael trafferth gyda chostau bwyd a biliau, heb orfod poeni am ddirwyon hefyd."

Nid dyna'r ateb

57. Dywedodd nifer o gyfranogwyr nad cosbau ariannol oedd yr ateb i'r broblem. Byddai'n well ganddynt weld gwell cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni a gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ei angen i wella presenoldeb.

"Allwch chi ddim cael sedd wrth y bwrdd a chael cynllun adeiladol wedi'i gyd-gynhyrchu a chael llythyrau rhybuddio, llythyrau bygythiol a dirwyon yr un pryd."

58. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth mewn rhai o'r grwpiau ynghylch gwobrwyo presenoldeb yn gyffredinol a theimlad bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn plant ag anableddau neu gyflyrau meddygol sy'n effeithio ar eu presenoldeb. Yn ogystal, roeddent yn teimlo ei fod yn annog presenoldeb ymysg plant sy'n sâl, sy'n annheg ar y plentyn sâl ac yn rhoi eraill mewn perygl.

Atodiad 1

Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth gyda'r ymchwiliad hwn:

Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant, Cyngor Abertawe

GISDA Caernarfon

Tîm Cynhwysiant, Cyngor Bro Morgannwg

Parents Voices in Wales CIC

Achub y Plant

Ysgol y Foryd, Bae Cinmel

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council
Neuadd y Dref, Wrecsam. LL11 1AY
Guildhall, Wrexham. LL11 1AY
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk
Cyfnewid Testun/Text Relay: 18001

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our ref	KE/LD/JH/SR - FPN
Dyddiad/Date	28th June 2022
Gofynner am/Ask for	John Hodgson
Rhif Cyswllt/Contact No	01978 295570
E-bost/E-mail	ESW@wrexham.gov.uk

Dear Parent/ Carer,

Update on school attendance guidance

Parents and carers in Wrexham are being informed that the Welsh Government has reverted back to the use of Fixed Penalty Notices for non-attendance at school.

Following an announcement from the Minister for Education and Welsh Language, Wrexham County Council will follow the guidance to ensure that young people are accessing their education.

From September 2022, Fixed Penalty Notices will be reintroduced as part of a range of options to improve attendance at school. Fixed Penalty Notices will only be issued where it is evident that that there are no underlying reasons preventing regular school attendance, in line with the local code of conduct for issuing Fixed Penalty Notices for non-attendance at school. Any legal action is only taken when all efforts to engage parents and bring about a positive improvement in attendance have been tried and failed.

We ask that parents and carers work with schools, closely communicating any difficulties and issues that are impacting on their child attending school regularly. Where there are genuine reasons for absences, these must be discussed with your child's school to ensure collaborative working between parents, schools and Local Authority staff to maintain good school attendance of all pupils in the county.

Fixed Penalty Notices for non-attendance had been available to local authorities during the pandemic; however, the Welsh Government had recommended against their use.

For more information visit https://gov.wales/oral-statement-school-attendance.

Further advice on school attendance can be sought from your child's school or the Education Social Work Team on 01978 295570. Information on well-being support for young people is available at www.youngwrexham.co.uk.

Yours sincerely

J. D.

John Hodgson
Education Support Manager

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.
We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.